**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**26 HYDREF 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mercher, 26 Hydref 2022.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Paul Cunningham, Carol Ellis, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers, Dan Rose ac Antony Wren

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Adele Davies-Cooke a Gladys Healey

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Arweinydd Tîm - Rheoli Datblygu - Tîm y De, Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 20. DATGAN CYSYLLTIADAU

Datganodd y Cynghorydd Anthony Wren gysylltiad personol ag eitem 6.5 (FUL/ 000358/22) ar y rhaglen oherwydd ei fod yn aelod o Gyngor Tref Cei Connah.

## 21. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod a'u hatodi i'r eitem ar y rhaglen ar wefan y Cyngor:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=5229&LLL=0

## 22. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Awst 2022 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Bernie Attridge a Mike Peers eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

## 23. EITEMAU I'W GOHIRIO

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) nad oedd unrhyw eitemau wedi'u hargymell i'w gohirio.

**24. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

**25. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3.25pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau yn:http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 26 HYDREF 2022**

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| FUL/ 000011/22 | Cyngor Tref Cei Connah | Ailddatblygu ac estyniad i hen safle Melin Bapur UPM Shotton yn cynnwys 82 hectar o adeiladau newydd ffatri bapur a pheiriannau prosesu, a thirlunio cysylltiedig, swyddfeydd, mynediad a pharcio ym Melin Bapur Shotton, Weighbridge Road, Glannau Dyfrdwy. | - | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 061722 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais llawn, yn rhannol ôl-weithredol, ar gyfer ad-drefnu'r safle i sipsiwn a theithwyr presennol a gymeradwywyd er mwyn caniatáu ar gyfer 9 o leiniau ychwanegol i garafanau statig yn Magazine Lane, Ewlo. | Siaradodd Martin Rooney (ymgeisydd), o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. Diwygio Amod 8 i 'manylion am ddull arfaethedig *derbyniol* o gael gwared ar ddŵr budr.' |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 062820 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Adeiladu 130 o anheddau yn cynnwys byngalos, tai a rhandai dau lawr gyda mynediad eu hunain, ffordd fynediad newydd, gwaith allanol cysylltiol a thirlunio ar dir wrth ymyl 1 Liverpool Road, Ewlo. | Siaradodd Mark Edwards (preswylydd) yn erbyn y cais. Nodwyd sylwadau gan wrthwynebydd trydydd parti yn y sylwadau hwyr. | Gwrthod caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 062760 | Cyngor Cymuned Queensferry | Defnyddio tir i gadw carafanau ar gyfer pwrpas preswyl, a ffurfio ystafelloedd dydd sengl a phâr ar ardal arwyneb caled yn Sisters Yard, Ffordd yr Orsaf, Sandycroft. | Siaradodd Nathaniel Green (asiant) o blaid y cais.<br><br>Darllenwyd datganiad ar ran yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Christine Jones. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog, gyda'r amodau ychwanegol canlynol:<br>• Bod manylion ynglŷn â mynediad safle yn cael eu darparu o fewn 3 mis.<br>• Bod llinell weld yn cael ei darparu o fewn 6 mis.<br>• Bod y giatiau mynediad yn cael eu hadleoli i bwynt 5 metr oddi wrth ymyl y briffordd.<br>• Bod lleoedd parcio a throi yn cael eu darparu ar y safle.<br>• Bod ffyrdd cadarnhaol i atal dŵr wyneb ffo rhag rhedeg ar y briffordd yn cael eu darparu.<br>• Bod manylion am bwynt casglu biniau yn cael eu darparu o fewn 6 mis. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| FUL/ 000358/22 | Cyngor Tref Cei Connah | Trawsnewid hen dŷ cyhoeddus i greu 11 rhandy yn 315 Stryd Fawr, Cei Connah. | Siaradodd Pete Lloyd (asiant) o blaid y cais.<br><br>Nodwyd sylwadau gan yr Aelod Lleol, Cyngor Tref Cei Connah a thrydydd parti yn y sylwadau hwyr. | Bod y cais yn cael ei ohirio am gylchred i ganiatáu ar gyfer ymgynghoriad llawn ac ymchwil i fannau parcio ychwanegol yng nghefn yr adeilad. |
| 063335 | Cyngor Cymuned yr Hôb | Dymchwel yn rhannol yr annedd bresennol a datblygiad preswyl yn cynnwys 7 annedd sengl a ffyrdd a gwaith draenio cysylltiedig yn Foxfield, Fagl Lane, Yr Hôb. | Siaradodd Michael Forgrave (ymgeisydd) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd Janet Hilton (preswylydd) yn erbyn y cais.<br><br>Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran Cyngor Cymuned yr Hôb.<br><br>Nodwyd sylwadau gan wrthwynebydd trydydd parti yn y sylwadau hwyr. | Gwrthod caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| FUL/ 000143/22 | Cyngor Tref Bwcle | Lleoliad parhaus o adeilad symudol i'w ddefnyddio fel cyfleusterau newid ategol yn Theatr Fach Hawkesbury, Mill Lane, Bwcle. | Darllenwyd datganiad yn gwrthwynebu'r lleoliad ar ran Pam Willoughby (preswylydd). Crynhowyd sylwadau gan drydydd partïon yn y sylwadau hwyr.<br><br>Siaradodd Peter Lloyd (asiant), y Cynghorydd Charles Cordery (Cyngor Tref Bwcle) a'r Cynghorydd Carol Ellis (aelod lleol) o blaid y cais. | Bod y cais yn cael ei ohirio i ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth Theatr ac i gynnal ymweliad safle gyda'r Aelodau cyn i'r cais gael ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor. |
| LBC/ 000351/22 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Adeilad Rhestredig - Lleoliad parhaus o Adeilad Symudol i'w ddefnyddio fel cyfleusterau newid ategol yn Theatr Fach Hawkesbury, Mill Lane, Bwcle. | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. |